**Cofnodion cyfarfod Pwyllgorau Cynllunio, Cyllid a Materion Cyffredinol a gynhaliwyd Nos Lun, Ionawr 12fed 2015 am 7 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol:** Cynghorwyr Raymond Bartley, Margaret Bowe, Gaynor Morgan Rees, Medwyn Williams, Colin L Hughes, Brian Davies, Mark Young, Roy Tickle, Gaynor Wood a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng. Geraint Williams, Rob Parkes, Colin Hughes, Shereen Devine, Philip Stevens, Catherine Jones.

**Arsylwi:** Cynghorydd Sir Gwyneth Kensler

Cadeiriwyd Pwyllgorau Cyllid a Materion Cyffredinol gan y Cyng. Raymond Bartley gyda'r Cyng. Margaret Bowe yn cadeirio'r Pwyllgor Cynllunio .

Croesawodd y cadeirydd bawb i gyfarfod cyntaf 2015 a dymunodd Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Aeth y cadeirydd ymlaen i groesawu'r Cynghorydd Sir Bill Cowie oedd yn arsylwi ar ran Bwyllgor Safonau Sir Ddinbych.

**166. Datgan Diddordeb Personol:** Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

(1) Cyng. Raymond Bartley - holl faterion oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych
(2) Cyng. Roy Tickle - eitem agenda C3 - Adroddiadau - Rheolaeth Neuadd y Dref
(3) Cyng. Gaynor Wood - eitem agenda C3 - Adroddiadau - Rheolaeth Neuadd y Dref

**A. <u>Pwyllgor Cynllunio:</u>**

**167.** (1) **Ceisiadau am ganiatâd cynllunio.**

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i beidio â gwrthwynebu'r ceisiadau canlynol am ganiatâd cynllunio

(1) Cyn Ysbyty Gogledd Cymru (2 gais)
(2) 51, Parc Mytton
(3) HSBC, 17 Stryd y Dyffryn (2 gais)
(4) 5, Plas yn Green
(5) Ysgol Howell (2 gais)
(6) 51, Dalar Wen

Ynglŷn â'r cais cynllunio a dderbyniwyd ar gyfer cyn Ysbyty Gogledd Cymru, mewn ateb i sylw a wnaed, cadarnhaodd clerc y dref fod trefniadau yn cael eu gwneud i Phil Ebbrell fynychu cyfarfod o'r cyngor i roddi diweddariad ar y cynigion.

(2) Materion Cynllunio eraill: Nid oedd unrhyw fater arall.

**B. <u>Pwyllgor Cyllid:</u>**

**168. Cyfrifon:** 1. Cytunwyd i dalu'r cyfrif canlynol a dderbyniwyd:

(1) CSDd - cynnal a chadw tir 2014/2015 - £1,921.04
(rhif siec 005534)
(Cofnod 257(1)(a) dyddiedig 24.3.14 yn cyfeirio)

Cyfanswm taliadau: £1,921.04

2. Nodwyd adroddiadau ariannol cyfnod **1.4.14 - 31.12.14**

3. Unrhyw faterion ariannol eraill: (1) Derbyniwyd a chymeradwywyd rhestr taliadau a wnaed gan glerc y dref yn ystod y cyfnod Rhagfyr 16eg 2014 - Ionawr 12fed 2015 (cofnod 163(2)(2) yn cyfeirio).
(2) Nodwyd derbyn £61,488 oddi wrth GSDd, sef y 3ydd taliad archebiant a'r olaf.
(3) Nodwyd derbyn £2,320.70 oddi wrth HMRC sef ad-daliad TAW.
(4) Ystyriwyd y ddau ddyfynbris a gyflwynwyd gan y Cyng. Gwyneth Kensler ar ran Amgueddfa Dinbych ynglŷn â gwaith oedd angen ei wneud ar adeilad yr hen Lysdy a chytunwyd fod y ddau ddyfynbris yn dderbyniol a bod yr anfonebau, mewn amser, yn cael eu gyrru i'r cyngor tref i'w talu.
(5) Nodwyd yr hysbyseb a dderbyniwyd oddi wrth Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r swm priodol newydd o dan Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, h.y. £7.36 am bob etholwr, ar gyfer 2015/2016.

## C. <u>Pwyllgor Materion Cyffredinol</u>:

**169. Llythyron, E-byst a Hysbysiadau:** (1) Penderfynwyd nodi pedair eitem o ohebiaeth a dderbyniwyd.

2. Cytunwyd ymhellach i nodi a gweithredu fel bod angen ar y canlynol:

(1) E-bost oddi wrth y Cyng. Gwyneth Kensler ynglŷn â lleoliad stand i feiciau yng nghanol y dref. Atgoffodd clerc y dref y cyfarfod fod y pwnc yma wedi ei drafod yng nghyfarfodydd y cyngor yn y gorffennol. Derbyniwyd fod gwir angen cyfleuster o'r fath. Ystyriwyd y pedwar lleoliad a gyfeiriwyd atynt yn yr e-bost. Dywedwyd y dylid hefyd ystyried Sgwâr y Goron. Gofynnwyd cwestiynau ar (a) a oedd ymgynghoriad wedi cymryd lle gyda'r frawdoliaeth beicio a (b) pwy fydd yn talu. Atebodd y Cyng.Kensler fod y cynigion mewn cyfnod cynnar a byddai CSDd yn talu yn y flwyddyn ariannol newydd. Cytunwyd mai'r safle y tu allan i'r Co-op oedd yr opsiwn dewisol ond i ystyriaeth hefyd gael ei roddi i Sgwâr y Goron.
(2) Cyfeiriwyd yr ohebiaeth a dderbyniwyd oddi wrth (a) Relate Cymru a (b) Breast Cancer Care Cymru at yr is bwyllgor cymorthdaliadau.
(3) Cyfeiriwyd at y cais a dderbyniwyd oddi wrth Elena Brown am gymhorthdal. Cadarnhawyd nad oedd gan y cyngor tref unrhyw bwerau deddfwriaethol i roddi cymorth ariannol i unigolion.
(4) E-bost oddi wrth Charlie Hobson ynglŷn ag ariannu digwyddiadau'r grŵp busnes. Dywedodd y Cyng. Mark Young fod cynnwys yr e-bost yn ymosodiad personol arno ef ac roedd yn anhapus a'r e-bost. Dywedwyd (a) roedd yn ysgytiol fod y cyngor yn ymglymedig, (b) roedd yr e-bost bron a bod yn enllibus ac ymosodol, (c) roedd yr e-bost hefyd yn cyfeirio at gynghorydd arall a chynghorydd sir. Cytunwyd yn unfrydol i yrru copi o'r e-bost i Swyddog Monitro Sir Ddinbych Gary Williams.

**170. Cofnodion / Adroddiadau Cyfarfodydd is bwyllgorau'r cyngor.** Nid oedd unrhyw gofnodion / adroddiadau

**171. Adroddiadau**: <u>(1) Thomas Gee</u>. Cafwyd diweddariad byr llafar gan y Cyng. Gaynor Morgan Rees ar y trefniadau ar gyfer y dathlu yn ystod y penwythnos yn dechrau ar Ionawr 23ain. Roedd y trefniadau yn symud ymlaen yn esmwyth. Darllenodd y cadeirydd y rhaglen digwyddiadau oedd yn cymryd lle.

2. Rheolaeth Neuadd y Dref. Cafwyd adroddiad byr llafar gan glerc y dref ar gyfarfod diweddar. Derbyniod y cyfarfod gyngor gan Vicky Shenton ar sut i farchnata neuadd y dref. Swyddogion CSDd i ystyried yr wybodaeth a dderbyniwyd ac i adrodd yn ôl i'r grŵp. Y cyfarfod nesaf wedi ei drefnu ar gyfer dydd Mercher yr 11eg o Ionawr 2015 am 4.30 o'r gloch. Cytunodd y Cyng Raymond Bartley a Medwyn Williams ac adroddiad clerc y dref.

3. Bwrdd Prosiect Ysbyty Gogledd Cymru. Cafwyd adroddiad byr llafar gan y Cyng. Medwyn Williams ar gyfarfod diweddar. Roedd cyfarfod gyda'r Arolygydd wedi ei drefnu ar gyfer Ionawr 14eg. Derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth y perchnogion yn gofyn am ohiriad a wrthodwyd gan yr Arolygydd.

(4) Gŵyl Ganol Haf. Cafwyd adroddiad byr llafar gan y Cyng Roy Tickle ar gyfarfod diweddar. Trefniadau yn symud ymlaen yn esmwyth. I ofyn i fusnesau'r dref i gymryd rhan mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.

Nid oedd unrhyw adroddiadau eraill.

**172. Materion o Ddiddordeb:** 1. Codwyd y mater canlynol gan yr aelodau a chytunwyd gweithredu lle bo angen:

(1) Problemau ar y Stryd Fawr lle'r oedd cerbydau yn croesi'r palmant ar ganol y ffordd i fynd heibio i fysiau oedd wedi stopio i godi teithwyr.

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 7.43 o'r gloch.

Arwyddwyd:......................................................................................................(cadeirydd)

Dyddiad:..........................................